Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd


## Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2021/22

Ystyriodd y Bwrdd y taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar gyfer 2021/22 yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020. Nododd y Bwrdd y gofynion gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gafodd ei benodi i roi sicrwydd allanol bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi am y taliadau yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol fel y nodir uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau a geir yn Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr Dŵr Cymru 2021/22 yn cydymffurfio â'r gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020, gwnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb am roi cymeradwyaeth derfynol i Restr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2021/22, yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn sgil cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddiannwyr (CPIH) ar 16 Rhagfyr 2020, i'r Cadeirydd.



**Alastair Lyons**
**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
17 Rhagfyr 2020